**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/JJ/1638/23

Heledd Fychan AS
Cadeirydd Dros Dro
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mehefin 2023

Annwyl Heledd,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Mai yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am waith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i godi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau am Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023, a datblygu canllawiau manwl mewn perthynas â hi .

Dechreuodd ein cynllun cyfathrebu parhaus i ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol cyn cyflwyno Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) i'r Senedd fis Medi diwethaf. Ar ôl pasio'r Bil ym mis Rhagfyr, rhyddhawyd deunyddiau codi ymwybyddiaeth ar unwaith. Ers hynny, rydym wedi parhau i rannu deunyddiau cyfathrebu cenedlaethol, gan gynnwys testunau ar y cyfryngau cymdeithasol drwy sianeli Llywodraeth Cymru a sianeli partneriaid, gan gynnwys Busnes Cymru. Dyma enghraifft o negeseuon Trydar.

O 5 Mehefin ymlaen, rydym wedi cynyddu gweithgareddau ymgyrchu cenedlaethol drwy rannu gwybodaeth drwy glip animeiddio. Bydd gweithgareddau tebyg yn parhau yn y misoedd cyn i'r gwaharddiadau ddod i rym. Yn ddiweddar, rydym wedi ymgysylltu ag asiantaeth farchnata i helpu i fwrw ymlaen â'r ymgyrch genedlaethol benodedig a byddwn yn datblygu ein cynlluniau ymhellach ar y cyd â hwy.

Mae gwefan Llywodraeth Cymru wedi cael ei diweddaru gyda gwybodaeth am y newidiadau yn y gyfraith a'r amserlen ddisgwyliedig. Mae'n darparu gwybodaeth i fusnesau am sut y gallant baratoi ar gyfer y newidiadau hyn. Bydd y wefan yn parhau i gael ei diweddaru wrth i'r Ddeddf gael ei rhoi ar waith.

Rydym hefyd yn llunio canllawiau cynhwysfawr a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Ddeddf, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach y mis hwn. Wrth ddatblygu'r rhain, mae swyddogion wedi cydweithio ag ystod o randdeiliaid allweddol gan gynnwys cyrff cynrychioliadol ar gyfer busnesau yr effeithir arnynt, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae nifer o ddarpariaethau yn y Ddeddf eisoes mewn grym, gan iddynt ddod i rym yn awtomatig ar y diwrnod ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. Mae ein cynllun i gyflwyno’r gwaharddiadau cyntaf ym mis Hydref ar y trywydd iawn. Bydd gwaharddiadau ar gynhyrchion sydd eisoes yn yr Atodlen yn cael effaith drwy Orchymyn. Daeth ein hymgynghoriad ar gynigion i gyflwyno sancsiynau sifil fel cyfundrefn orfodi amgen i’r sancsiynau troseddol sydd eisoes yn y Ddeddf i ben ar 9 Mehefin. Bydd y gwaith o ddrafftio’r Rheoliadau sy’n deillio o hyn yn digwydd dros yr haf fel y gall y Senedd eu hystyried gan ddefnyddio’r gweithdrefnau cadarnhaol mewn pryd i ddod i rym gyda’r gwaharddiadau cyntaf ym mis Hydref.

Yn gywir,

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change